CBAC
WJEC

# TGAU CYNLLUNIAU MARCIO

## CYMRAEG

## IONAWR 2012

# RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Ionawr 2012 TGAU CYMRAEG. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

# HAEN SYLFAENOL

## ADRAN A

**C.1** (i) Un marc am nodi:

- 1932 [1]

(ii) ½ marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Sgïo (llethr sgïo)
- Nofio (pwll nofio)
- Cerdded (llwybrau cerdded)
- Beiciau cwad
- Wal ddringo
- Marchogaeth ceffylau
- Cwrs rhaffau
- Beicio [2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Canu carioci
- Gwisgo fel Twm Siôn Cati
- Gwrando ar un o straeon T. Llew Jones
- Edrych ar waith arlunwyr lleol / ymweld â'r oriel
- Dysgu am hanes yr Urdd a'r iaith Gymraeg [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran.
Ateb un adran yn unig (hyd at 16 marc yn unig)
Ateb dwy adran yn unig (hyd at 17 marc yn unig)

| | **Darn Darllen 1- Gwersyll yr Urdd Llangrannog** |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y gwersyll** | • Enw - Gwersyll Yr Urdd Llangrannog<br>• Rhif ffôn 01239 652140<br>• Gwefan - llangrannog@urdd.org<br>• Un o 3 gwersyll Urdd Gobaith Cymru<br>• Cynnig profiadau gwledig ac awyr agored (penigamp i bobl ifanc)<br>• Croesawu dros 35,000 o blant ac oedolion yn flynyddol<br>• Cyrsiau iaith, antur, addysg a hwyl<br>• Agor y gwersyll yn 1932<br>• Gwersyll cyntaf yr Urdd<br>• Rhoddwyd y tir i'r Urdd gan J. M. Howell<br>• Lle i 150 o wersyllwyr yn 1932<br>• Merched a bechgyn ar wahân i ddechrau/ 1938 – gwersyll cymysg cyntaf<br>• 1970au - agor drwy gydol y flwyddyn a chyflogi staff llawn amser<br>• £5.5m i godi bloc cysgu (Cilborth)<br>• lletya dros 200 mewn ystafelloedd (*en-suite)* |
| **Y gweithgareddau** | • Cyrsiau iaith, antur, addysg a hwyl<br>• Amrywiaeth (eang) o weithgareddau<br>• Llethr sgÏo/ pwll nofio/ beiciau cwad/ wal ddringo/ cwrs rhaffau (rhaid nodi o leiaf ddau weithgaredd i gael un marc)<br>• Enw'r ganolfan hamdden - Syr Ifan<br>• Yn y ganolfan – pedwar cwrt badminton/ neuadd chwaraeon/ cae astro/ ystafell ffitrwydd/ cae chwaraeon naturiol (rhaid nodi o leiaf ddau beth i gael un marc)<br>• Ymweliadau dyddiol<br>• Canolfan Treftadaeth Caer Chwedlau<br>• Olhrain hanes yr Urdd (a'r iaith Gymraeg)<br>• Canu carioci/ gwisgo fel Twm Siôn Cati/ gwrando ar un o straeon T. Llew Jones<br>• Oriel yn cynnwys gwaith arlunwyr lleol |
| **Y cyfleusterau** | • Cyfleusterau 4 seren (Croeso Cymru)<br>• Te a choffi ar gael gydol y dydd/ ystafell ymlacio a theledu/ cyfrifiaduron/ cyfleusterau golchi a sychu dillad (o leiaf ddwy ffaith i gael marc)<br>• Ystafelloedd i 4,6 neu 8<br>• Mwyafrif yn *en-suite*<br>• 4 pryd o fwyd (iachus)<br>• Ennill gwobr Curiad Calon am fwydlenni iach<br>• Prynu bwyd lleol<br>• Enghraifft o fwydlen |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf cyfweliad – deialog/ dyfynodau/ gosod fel cyfweliad

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 20 marc**

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – ½ **marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol.

| **Darn Darllen 1 – Gwersyll yr Urdd Llangrannog** | **Darn Darllen 2 – Papur Fama** |
|---|---|
| (3x2 = 6)<br>**Ffurf:** tudalen gwefan/ gwybodaeth o'r we<br>½ am nodi'r ffurf ac 1 ½ marc am nodi nodweddion y ffurf e.e. cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau ayyb<br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol *(dyfynnu i enghreifftio)*<br><br>**Nodweddion arddull**<br>• Idiomau (e.e. newydd sbon)<br>• Cyflwyno ffeithiau *(e.e. un o dri gwersyll)*<br>• Ffigurau a dyddiadau (e.e. 35,000/ 1932/ 1970au/ 35.50, rhif ffon – 01239 652140)<br>• Ansoddeiriau *(e.e. gwledig, penigamp)*<br>• Rhestru *(e.e.cyrsiau iaith, antur, addysg a hwyl/ brecwast, cinio, te a swper)*<br>• Ebychiadau *(e.e. Hwyl!/ aelod o staff dal yma ers hynny!)*<br>• Berfau person cyntaf *(e.e. gennym/ rydym)*<br>• Berfau gorchmynnol *(e.e. cysylltwch/ dewch)*<br>• Sôn am y gorffennol a'r presennol *(1932 - presennol)*<br><br>**Bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau/ denu ymwelwyr<br><br>**Pwy yw'r darllenwyr**<br>• pobl ifanc/ ysgolion/ ymwelwyr/ disgyblion *(cyfiawnhau e.e. perswadio)*<br>**Cyflwyniad**<br>• Logo *(logo'r Urdd)*<br>• Prif deitl gyda llun cefndirol *(gwersyll yr Urdd Llangrannog)*<br>• Pwyntiau bwled *(e.e. y cyfleusterau)*<br>• Isbenawdau yn y blychau (e.e. *Amdanom ni...)*<br>• Print trwm *(isbenawdau – tynnu sylw*)<br>• Cefndir lliw i'r blychau *(melyn, glas golau a thywyll)*<br>• Enwi gwefan/ ebost *(www.urdd.org/llangrannog)*<br>• Enwi *pobl ( e.e. Twm Sion Cati, Syr Ifan, J.M.Howells, T. Llew Jones)*<br>• Enwi llefydd *(e.e. Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Cilborth, Canolfan Treftadaeth Caer Chwedlau)*<br>• *Enwi ... (e.e. Llaeth y Llan, Curiad Calon, Urdd Gobaith Cymru)*<br>• Lluniau *(llun cefndirol lliw i'r teitl/ dau lun lliw bach o weithgareddau'r gwersyll – sgïo, certio, lleoliad gwledig y cwestiwn)*<br>• Blychau (*dull cysylltu ac annog i ymweld/ rhif ffôn*)<br>• Fframiau + lliw i'r blychau | (3x2 = 6)<br>**Ffurf:** erthygl/ adroddiad papur newydd<br>½ am nodi'r ffurf ac 1 ½ marc am nodi nodweddion y ffurf e.e. cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau/ hysbysebu ayyb<br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol/ ail ran ychydig yn fwy anffurfiol *(e.e.diolch byth)*<br>**Nodweddion arddull**<br>• Idiomau *(e.e. o nerth i nerth/ o'n corun i'n sawdl/ newydd sbon)*<br>• Defnyddio ffigurau *(e.e. 28 aelod, 16-25 oed)*<br>• Ansoddeiriau *(e.e. gwych, eang, cyffrous, gwallgo, iasoer)*<br>• Cyfarch cynulleidfa (e.e. os ydych.../ cysylltwch..)<br>• Rhestru *(e.e.pŵl,cwis a bingo/ dringo,neidio a siglo)*<br>• Ebychiadau (e.e. A'i gadw'n gyfan!/...llond plat o hufen yn eu hwynebau!)<br>• Berfau person cyntaf *(unigol a lluosog - rydw i/ rydym/ cawsom/ aethom)*<br>• Berfau gorchmynnol *(e.e. cysylltwch)*<br>• Cyffelybiaeth/cymhariaeth *(yn dywyll fel bol buwch/)*<br>• Sôn am y presennol a'r gorffennol*(Mae pethau'n mynd o nerth i nerth/ Rydym yn cyfarfod/ bwriad y daith oedd)*<br>• Cyflythreniad *(er gwaetha'r gwynt a'r glaw)*<br>**Bwriad yr awdur**<br>• rhannu gwybodaeth/ hysbysebu / denu pobl *(e.e. gwefan/ niferoedd/ gweithgareddau/ hanes y daith)*<br>**Pwy yw'r darllenwyr**<br>• cynulleidfa eang papur bro/ pobl ifanc *(cyfarch pobl ifanc 16-25 oed)*<br>**Cyflwyniad**<br>• Logo *(cyfeirio at logo Papur Fama – lle y gosodir ar y dudalen)*<br>• Teitl y papur *(Papur Fama)*<br>• Pennawd *(Aelwyd y Castell ar Daith i'r Gwersyll)*<br>• Defnydd o brint trwm *(penawdau ac isbenawdau – tynnu sylw)*<br>• Defnydd o liw cefndir *(cefndir gwyrdd tu ôl i'r teitl)*<br>• Enwi gwefan/ e-bost*( awen@menteriaithsiryfflint)*<br>• Enwi dau awdur *(Awen a Rhiannon)*<br><br>• Lluniau *(3 llun – dringo, canŵio, y llyn)*<br><br>• Blwch *(y frawddeg/ datganiad cyntaf)*<br>• Fframiau lliw i'r blychau *(coch a gwyrdd)* |

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol yr ymdriniaeth a thrafod y 2 ddarn ar y cyd.

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd** (hyd at **3 marc** ar draws y ddau ddarn)

**3 marc** – mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn dda
**2 farc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn eithaf da
**1 marc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

**Iaith a mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifadau canlynol**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (Cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant: 10)**

**ADRAN B**

**C.4** Gweler disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf gwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol***

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol yn eglur<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 14-21 | 7-10 | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • cyflwyno gwybodaeth syml yn eithaf eglur<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • cyflwyno peth gwybodaeth yn syml<br>• peth ymgais i gyflwyno manylion yn eglur<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

## ADRAN C

### C.5 Defnyddio iaith

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro’r gwall.

**Canolfan Antur Sir Benfro**

**Lleoliad**
**M**ae Canolfan Antur Sir Benfro ar **l**an yr afon Cleddau. **Nid yw’r/ dydy’r** ganolfan (ddim) yn bell o fynyddoedd y Preseli na’r **môr**.

**Gweithgareddau**
Mae’r ganolfan yn cy**nn**ig llawer o weithgareddau **d**a. Rydym yn **t**refnu gweithgareddau ar gyfer grwpiau ysgol neu **i’r** teulu.

**Gwyliau**
Mae'r ganolfan **hon** yn darparu gwyliau gwell nag unrhyw le arall **yn** y byd.

Mae > Mae
ar glan > ar lan
Mae’r ganolfan ddim > Nid yw’r/ dydy’r ganolfan
mor > môr
cynig > cynnig
gweithgareddau dda > gweithgareddau da
yn drefnu > yn trefnu
ir > i’r
Mae’r ganolfan hwn > mae’r ganolfan hon
mewn y byd > yn y byd

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc**

**Marciau’r papur cyfan = 100 (Adran A:50 + Adran B:40 + Adran C: 10)**

# HAEN UWCH

## ADRAN A

**C.1** (i) Un marc am nodi:

- 28 [1]

(iv) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Enwi'r ŵy
- Addurno'r ŵy
- Mynd â'r ŵy gyda nhw ar bob gweithgaredd/ ei gadw'n gyfan [2]

(v) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- Dringo
- Neidio
- Siglo [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran.

| | **Darn Darllen 2 - Hanes yr Urdd** |
|---|---|
| **Cychwyn yr Urdd** | • Sefydlu'r Urdd yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards (angen y ddwy ffaith i gael y marc)<br>• Bwriadu creu mudiad i amddiffyn y Gymraeg<br>• Y dyfodol yn edrych yn ddu i'r iaith (er bod dros filiwn o siaradwyr)<br>• Tad Syr Ifan wedi ceisio sefydlu mudiad ddwywaith (enwau'r mudiadau)<br>• O.M.Edwards yn ysbrydoliaeth i'w fab<br>• 1922 - apêl i blant Cymru (mudiad newydd Urdd Gobaith Cymru Fach)<br>• 720 o aelodau erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf/ ymateb cadarnhaol<br>• Sefydlu'r Adran gyntaf yn Nhreuddyn (yn 1922)<br>• Dros 5,000 o aelodau/ 80 adran (erbyn 1927) |
| **Datblygu dros y blynyddoedd** | • Cael y syniad i sefydlu gwersyll<br>• Gwersyll cyntaf yn Llanuwchllyn (deg swllt)<br>• Dulliau coginio cyntefig/ deunaw o bebyll a marcî<br>• 1932 - gwersyll (parhaol) yn Llangrannog<br>• Pedair wythnos o wersyll i 150 o wersyllwyr yn 1932<br>• Gwersyll Glan-llyn i rai hŷn/ gwersyll yn agor yn 1950<br>• posibiliadau dringo ayyb<br>• Cwch 'Y Brenin Arthur' yn tywys y plant i'r gwersyll cyntaf<br>• Datblygiadau eraill – aelwydydd/ eisteddfodau/ sinema/ Sul yr Urdd/ Mabolgampau/ Neges Ewyllys Da – (dim mwy na dau farc am enwi dau neu fwy)<br>• Adran wyddoniaeth a phasiant rhwng y 60au a'r 80au<br>• 1975 - 65,000 o bobl yn dod i'r Eisteddfod<br>• Geni Mr Urdd yn 1976/ dechrau gwerthu cynnyrch Mr Urdd<br>• Gwario llawer o arian ar adeiladau a gweithgareddau yn y gwersylloedd<br>*(Rhaid i'r wybodaeth a gyflwynir fod yn berthnasol i'r gwersyll y sonnir amdano.)* |
| **Yr Urdd heddiw** | • Prif fudiad ieuenctid Cymru / 50,000 o aelodau<br>• 180 o staff/ 10,000 o wirfoddolwyr<br>• 250,000 o sesiynau chwaraeon yn flynyddol<br>• Aelwydydd newydd yn gyson e.e. Aelwyd yr Ynys/ CF1<br>• Enwi gweithgareddau - jambori, teithiau tramor/ gwaith dyngarol (1 marc am enwi o leiaf ddau)<br>• Aelodau'r Urdd yn cael profiadau cofiadwy<br>• Breuddwyd Syr Ifan yn cael ei gwireddu / yr Urdd yn mynd o nerth i nerth |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf cyfweliad – deialog / dyfynodau / gosod fel cyfweliad.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 15 marc**

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd gan ddangos dealltwriaeth a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol.

| **Darn Darllen 1 – Papur Fama** | **Darn Darllen 2 – Hanes yr Urdd** |
|---|---|
| (4x2 =8)<br>**Ffurf:** erthygl/ adroddiad papur newydd<br>½ am nodi'r ffurf ac 1 ½ marc am nodi nodweddion y ffurf e.e. cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau/ hysbysebu ayyb<br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol/ ail ran ychydig yn fwy anffurfiol *(e.e.diolch byth)*<br>**Nodweddion arddull**<br>• Idiomau *(e.e. o nerth i nerth/ o'n corun i'n sawdl/ newydd sbon/ yn dywyll fel bol buwch)*<br>• Defnyddio ffigurau *(e.e. 28 aelod, 16-25 oed)*<br>• Ansoddeiriau *(e.e. gwych, eang, cyffrous, gwallgo, iasoer)*<br>• Cyfarch cynulleidfa (e.e. os ydych.../ cysylltwch..)<br>• Rhestru *(e.e. pŵl, cwis a bingo/ dringo, neidio a siglo)*<br>• Ebychiadau<br>• Berfau person cyntaf *(unigol a lluosog - rydw i/ rydym/ cawsom/ aethom)*<br>• Berfau gorchmynnol *(e.e. cysylltwch)*<br>• Cyffelybiaeth/ cymhariaeth *(yn dywyll fel bol buwch)*<br>• Sôn am y presennol a'r gorffennol *(Mae pethau'n mynd o nerth i nerth/ Rydym yn cyfarfod/ bwriad y daith oedd)*<br>• Cyflythreniad *(er gwaetha'r gwynt a'r glaw)*<br><br>**Bwriad yr awdur**<br>• rhannu gwybodaeth/ hysbysebu/ denu pobl *( e.e. gwefan/ niferoedd/ gweithgareddau/ hanes y daith)*<br>**Pwy yw'r darllenwyr**<br>• cynulleidfa eang papur bro/ pobl ifanc *(cyfarch pobl ifanc 16-25 oed)*<br>**Cyflwyniad**<br>• Logo *(cyfeirio at logo Papur Fama / lle y gosodir y logo)*<br>• Teitl y papur *(Papur Fama)*<br>• Pennawd *(Aelwyd y Castell ar Daith i'r Gwersyll)*<br>• Isbennawd *(Adroddiad Rhiannon Owen)*<br>• Defnydd o brint trwm *(penawdau ac isbenawdau – tynnu sylw)*<br>• Defnydd o liw cefndir *(cefndir gwyrdd tu ôl i'r teitl)*<br>• Enwi gwefan *(awen@menteriaithsiryfflint)*<br>• Enwi dau awdur *(Awen a Rhiannon)*<br>• Lluniau *(3 llun – dringo, canŵio, y llyn)*<br>• Blwch/ bocs *(y frawddeg/ datganiad cyntaf)* | (4x2 = 8)<br>**Ffurf:** tudalen gwefan/ gwybodaeth o'r we. ½ marc am nodi'r ffurf ac 1 ½ marc am nodi nodweddion y ffurf e.e. cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau ayyb<br>**Y math o iaith**<br>• Iaith safonol/ ffurfiol *(dyfynnu i ddangos hyn)*<br><br>**Nodweddion arddull**<br>• Idiom (e.e. mynd o nerth i nerth)<br>• Ffigurau a dyddiadau *(llawer ohonynt e.e. 1922/ 1960-1920/ 1960-1880 / 180 o staff..)*<br>• Berfau amhersonol *(e.e. sefydlwyd)*<br>• Ansoddeiriau *(e.e. cadarnhaol, cyntefig)*<br><br>• Rhestru *(e.e. dringo, ymarfer corff a chwaraeon dŵr/ sticeri, bathodynnau, mygiau a chrysau t)*<br><br>• Berfau trydydd person *(e.e. apeliodd, datblygodd)*<br><br>• Sôn am y gorffennol a'r presennol *(1922 - presennol)*<br><br>**Bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth/ ffeithiau/ denu ymwelwyr<br><br>**Pwy yw'r darllenwyr**<br>• pobl ifanc/ ysgolion/ oedolion<br>**Cyflwyniad**<br>• Logo'r Urdd *(cyfeirio at y logo – disgrifio/ lle y gosodir y logo)*<br>• Pennawd yr erthygl *(Hanes yr Urdd)*<br>• Print trwm *(isbenawdau – tynnu sylw)*<br>• Pwyntiau bwled *(e.e. Aelwydydd, eisteddfodau)*<br>• Isbenawdau *(cyfeirio atynt - Y Cyfnod Cynnar/ 1920au -1950au ayyb)*<br>• *Trionglau lliw/ patrwm uwchlaw'r pennawd* (gwyrdd, melyn, coch)<br>• *Enwi pobl (e.e.Syr Ifan ab Owen Edwards, O.M. Edwards, Mr Urdd)*<br>• *Enwi llefydd/ Gwersylloedd yr Urdd (e.e. Treuddyn, Sir y Fflint/ Llanelli/ Caerdydd/ Ynys Môn/ Llangrannog, Glan-llyn)*<br>• Lluniau *(3 llun lliw – Gwersyll Llangrannog ayyb)*<br>• Blychau gwybodaeth *(4 blwch – trefn amser)*<br>• Fframiau lliw i'r blychau *(coch a gwyrdd)* |

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd
( **e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).**

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn).
**4 marc –** mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn aeddfed
**3 marc** – mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn dda
**2 farc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn eithaf da
**1 marc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 20 marc**

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau gradd**

| **IAITH A MYNEGIANT 10** | **Marc 10** |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (Cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10)**

## ADRAN B

**C.4** Gweler disgrifiadau gradd Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf gwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn gryno a chrefftus<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth fanwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn effeithiol a chryno<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11 -13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • cyflwyno gwybodaeth briodol yn eithaf manwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol yn eglur<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau’n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith a Mynegiant: 20)**

## ADRAN C

### C.5 Defnyddio iaith

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.

**Canolfan Antur Sir Benfro**

**Lleoliad**
Lleolir Canolfan Antur Sir Benfro ar lan yr afon ac ma**e'n** cynnig dewis da o weithgareddau. Mae mynyddoedd y Preseli, traethau hardd a **ch**oedwigoedd i gyd o fewn cy**rr**aedd i'r ganolfan **hon**.

**Gweithgareddau**
Rydym yn cynnig cyrsiau hwylio, cychod modur, dringo clogwyni a llawer mwy **yn** y ganolfan. Mae'r wal ddringo dan do yn boblogaidd iawn.

**Gwyliau**
**Does** dim ots/ **Nid oes ots** beth yw eich oedran, gall**wn** ni gyflwyno digon o antur i chi. Mae gwyliau **yng Ngh**anolfan Antur Sir Benfro yn **well** nag unrhyw le arall. Felly dewch yma i fwynhau gwyliau mwyaf anturus **eich** bywyd (chi).

**maen > mae'n**
**a coedwigoedd > a choedwigoedd**
**cyrraedd > cyrraedd**
**i'r ganolfan hwn > i'r ganolfan hon**
**mewn y ganolfan > yn y ganolfan**
**Mae dim ots > Nid oes ots/ Does dim ots**
**gallaf ni > gallwn ni**
**yn Canolfan... > yng Nghanolfan...**
**yn fwy da > yn well**
**bywyd chi > eich bywyd (chi)**

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc**

**Marciau'r papur cyfan = 100 (Adran A:50 + Adran B:40 + Adran C: 10)**

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk